

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â throsglwyddo rheolaeth dros brosiectau rhwydwaith sydd wedi'u cwblhau.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod prosiectau rhwydwaith sydd wedi'u cwblhau yn cwrdd â'r manylebau, nodi ac esbonio unrhyw wyriadau oddi wrth y rhain, darparu gwybodaeth am brosiectau rhwydwaith sydd wedi'u cwblhau a chael y rheolwr newydd i dderbyn y rhain yn unol â'r gweithdrefnau trosglwyddo y cytunwyd arnynt.

Bydd y Safon hon yn berthnasol i Weithrediadau Adeiladu Rhwydwaith ac fe'i bwriedir ar gyfer goruchwylwyr adeiladu rhwydweithiau.

---

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. cael gwybodaeth gan ffynonellau dibynadwy am weithgareddau rhwydwaith sydd wedi'u cwblhau
2. cadarnhau bod y rhwydwaith yn barod i gael ei throsglwyddo a'i bod yn cydymffurfio â'r holl weithdrefnau ac arferion cymeradwy
3. rhoi gwybodaeth glir a chywir am rwydweithiau i unigolion a sefydliadau perthnasol yn unol â gofynion y sefydliad ei hun a gofynion y sefydliad sy'n mabwysiadu
4. nodi ac esbonio unrhyw agweddau ar rwydweithiau sy'n amrywio o weithdrefnau ac arferion a manyleb gymeradwy y cytunwyd arnynt
5. trosglwyddo rheolaeth o rwydweithiau yn unol â gweithdrefnau a phrosesau eich sefydliad eich hun a'r sefydliad sy'n mabwysiadu
6. sicrhau bod rhwydweithiau'n cael eu derbyn drwy fabwysiadu sefydliadau yn unol â gweithdrefnau trosglwyddo y cytunwyd arnynt
7. cwblhau dogfennau trosglwyddo ar adegau priodol yn unol â gofynion sefydliadol
8. cofnodi manylion trosglwyddo mewn systemau gwybodaeth sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. ffynonellau gwybodaeth gan gynnwys adroddiadau statudol ac anstatudol, dogfennau'r cwmni, cyfarwyddiadau'r swydd, dogfennau'r sefydliad mabwysiadu mewnol ac allanol
2. gweithdrefnau a phrosesau ar gyfer trosglwyddo rheolaeth dros rwydweithiau i'r rhai sy'n gyfrifol am weithgareddau'r rhwydwaith, ac oddi wrthynt
3. ffactorau a allai effeithio ar barodrwydd rhwydweithiau i drosglwyddo
4. gweithdrefnau, arferion a rheoliadau cymeradwy gan gynnwys iechyd, diogelwch ac amgylcheddol ar eich cyfer chi eich hun ac eraill, sefydliadol, rheoleiddiol, statudol, argyfwng, gweithredol, cynlluniau wrth gefn, polisiâu perthnasol y cwmni, polisiâu a gweithdrefnau'r sefydliad sy'n mabwysiadu'n fewnol neu'n allanol, ac asesiadau risg
5. unigolion a sefydliadau sydd angen gwybodaeth am drosglwyddo rhwydwaith a'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt
6. gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer cyfathrebu gyda chwsmeriaid, contractwyr, gweithwyr rhwydwaith, cydweithwyr, cyrff statudol
7. agweddau ar rwydweithiau a allai amrywio o fanylebau a gofynion y cytunwyd arnynt
8. dogfennau sydd angen eu cwblhau a sut i'w cwblhau nhw
9. systemau ar gyfer cofnodi gwybodaeth a pham ei bod yn bwysig eu defnyddio

<b>Datblygwyd gan</b>	Energy & Utility Skills
<b>Fersiwn rhif</b>	2
<b>Dyddiad cymeradwyo</b>	31 Maw 2024
<b>Dyddiad Adolygu Dangosol</b>	31 Maw 2027
<b>Dilysrwydd</b>	Ar hyn o bryd
<b>Statws</b>	Gwreiddiol
<b>Sefydliad cychwynol</b>	Energy & Utility Skills
<b>RCU gwreiddiol</b>	EUSMUNC18
<b>Galwedigaethau perthnasol</b>	Adeiladu Rhwydwaith Dŵr, Adeiladu Rhwydwaith Aml-Gyfleustodau, Adeiladu Rhwydwaith Nwy
<b>Cyfes/Set</b>	Gweithrediadau Adeiladu Rhwydwaith Aml-Gyfleustodau
<b>Geiriau Allweddol</b>	rhwydwaith, adeiladu, gweithrediadau, cyfleustod, cyfleustodau, nwy, LPG, hydrogen, dŵr, rheoli trosglwyddo, prosiectau rhwydwaith wedi'u cwblhau, gweithdrefnau trosglwyddo, goruchwyliwr, aml-gyfleustodau